

*Patrwm cyflwyno* O fis Hydref i fis Mehefin

*Disgrifiad o'r modiwl*

Mae'r modiwl hwn yn cysylltu gwybodaeth am Saesneg, y modd y caiff ei defnyddio, a'r cyd-destunau y caiff ei defnyddio ynddynt, ac mae'n archwilio rôl iaith ym maes addysgu a dysgu, cyfathrebu busnes/proffesiynol, gofal iechyd a llawer o sefyllfaoedd bywyd go iawn eraill. Byddwch yn meithrin gwybodaeth gadarn am amrywiaeth o syniadau a thechnegau ym maes ieithyddiaeth gymhwysol (e.e. semanteg, pragmatiaeth, cyfathrebu rhyngddiwyllynnol, dadansoddi sgysiau, ethnograffeg, iaith a globaleiddio, rôl technolegau) ac yn cymhwysu hyn at astudiaethau achos o amrywiaeth o gyd-destunau. Bydd y myfyrwyr yn gwella eu dealltwriaeth ymarferol o'r modd y gall ymchwilio ac ymholi o'r fath fod yn ddefnyddiol mewn agweddau gwahanol ar fywyd, gan gynnwys eu hymarfer proffesiynol eu hunain.

*Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd meistr, o leiaf, mewn ieithyddiaeth, dadansoddi mynegiant neu faes cysylltiedig
- dealltwriaeth dda o ymagweddau cymdeithasol at iaith a dysgu, gan gynnwys ffonoleg, morffoleg, mathau gwahanol o ramadeg, pragmatiaeth, ieithyddiaeth corpws, ymagweddau diwyllianol-gymdeithasol ac ethnograffeg
- profiad o ddadansoddi iaith mewn cyd-destunau gwahanol
- rhywfaint o wybodaeth ymarferol am arferion addysgu iaith cyfredol yn un neu ragor o'r meysydd canlynol: Astudiaethau iaith a llythrennedd, Saesneg fel ail iaith, Saesneg at ddibenion academaidd, Saesneg fel iaith dramor, Saesneg fel cyfrwng addysgu a dysgu
- y gallu i diwtora myfyrwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd ieithyddol a diwyllianol, na fydd Saesneg yn iaith gyntaf i gyfran ohonynt
- lefel uchel o arbenigedd ym maes cyfrifiadura, gan gynnwys gwybodaeth am y modd y defnyddir technoleg mewn cyd-destunau iaith a dysgu a'r gallu i diwtora ar-lein gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau ar-lein.
- y gallu i ddefnyddio llwyfannau cydamseredig ac anghydamseredig wrth diwtora ar-lein

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- gradd ddoethurrol mewn ieithyddiaeth neu faes cysylltiedig
- profiad diweddar o addysgu mewn sefydliad addysg uwch
- profiad o addysgu ar-lein ac o bell
- profiad o wneud gwaith ymchwil ym maes ieithyddiaeth gymhwysol

*Gwybodaeth ychwanegol*

Mae'r modiwl hwn ar gael i'w astudio ledled y byd. Caiff ei diwtora yn gyfan gwbl ar-lein gan ddefnyddio fforymau ar-lein.

Un o'ch prif rolau fydd cymedroli fforymau grŵp tiwtor, annog y myfyrwyr i gymryd rhan, cydweithio, a chynnal amgylchedd gwaith da.

*Manylion y modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan*

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	15
Band cyflog:	5
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	4.5